

Llywodraeth Cymru

**Meintioli Ceisiadau Cynllunio
Seilwaith a Cheisiadau Cynllunio
Busnes/Masnachol a Gyflwynwyd
yng Nghymru**

Adroddiad Terfynol

Cyhoeddi | 30 Gorffennaf 2014

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau
a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti
ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno
ac nid ymgymerir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif gwaith r 233697-00

Ove Arup & Partners Ltd
4 Stryd Pierhead
Capital Waterside
Caerdydd CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
www.arup.com

ARUP

Document Verification

ARUP

Job title		Meintioli Ceisiadau Cynllunio Seilwaith a Cheisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol a Gyflwynwyd yng Nghymru		Job number 233697-00	
Document title		Adroddiad Terfynol		File reference	
Document ref					
Revision	Date	Filename	Report.docx		
Draft 1	24 Mar 2014	Description	First draft		
			Prepared by	Checked by	Approved by
		Name	Natalie Queffurus	Jessica Jones	Kieron Hyams
		Signature			
Issue	27 Mar 2014	Filename			
		Description			
			Prepared by	Checked by	Approved by
		Name	Natalie Queffurus	Jessica Jones	Kieron Hyams
		Signature			
Rev A	9 Apr 2014	Filename	WG_InfraBusiness_Draft Final Report (incorporating WG comments).docx		
		Description	Amended to incorporate client comments		
			Prepared by	Checked by	Approved by
		Name	Natalie Queffurus	Jessica Jones	Kieron Hyams
		Signature			
Rev B	7 May 2014	Filename	WG_InfraBusiness_Draft Final Report Rev B.docx		
		Description	Amended to include additional client comments		
			Prepared by	Checked by	Approved by
		Name	Natalie Queffurus	Jessica Jones	Kieron Hyams
		Signature			

Issue Document Verification with Document



Document Verification

Job title		Meintioli Ceisiadau Cynllunio Seilwaith a Cheisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol a Gyflwynwyd yng		Job number		233697-00	
Document title		Adroddiad Terfynol		File reference			
Document ref							
Revision	Date	Filename	report WELSH.docx				
Issue	30 July 2014	Description					
			Prepared by	Checked by	Approved by		
		Name	Natalie Queffurus	Jessica Jones	Kieron Hyams		
		Signature					
		Filename					
		Description					
			Prepared by	Checked by	Approved by		
		Name					
		Signature					
		Filename					
		Description					
			Prepared by	Checked by	Approved by		
		Name					
		Signature					
Issue Document Verification with Document							<input checked="" type="checkbox"/>

Cynnwys

	Tudalen
1	Cyflwyniad 1
1.1	Cefndir i'r Astudiaeth 1
1.2	Cwmpas a Dull yr Astudiaeth 1
1.3	Strwythur yr Adroddiad 8
1.4	Cydnabyddiaethau 8
2	Adolygiad o'r Ceisiadau a Ystyriwyd 10
2.1	Cyflwyniad 10
2.2	Cyfyngiadau'r Data 10
2.3	Data Cryno 11
2.4	Crynodeb o'r Ceisiadau 15
3	Ceisiadau Cynllunio Seilwaith 16
3.1	Cyfanswm Nifer y Ceisiadau 16
3.2	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd Fesul Blwyddyn 16
3.3	Cam Cyn-Ymgeisio 17
3.4	Dilysu 18
3.5	Math o Gais 19
3.6	Maint Ceisiadau Cynllunio Seilwaith 19
3.7	Ffioedd Ymgeisio 21
3.8	Datblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 21
3.9	Cynnwys Swyddogion 22
3.10	Ymgylchoreion 23
3.11	Darparu Gwybodaeth Ychwanegol 23
3.12	Dull Penderfynu 24
3.13	Ymweliadau Safleoedd Aelodau 24
3.14	Penderfyniadau ar Geisiadau 25
3.15	Graddfeydd Amser Penderfynu 26
3.16	Apeliadau Cynllunio 27
3.17	Cytundebau Adran 106 27
3.18	Amodau Cyn-Cychwyn 28
3.19	Dechrau ar y Safle 29
4	Ceisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol 30
4.1	Cyfanswm Nifer y Ceisiadau 30
4.2	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd Fesul Blwyddyn 30
4.3	Cam Cyn-Ymgeisio 31
4.4	Dilysu 32
4.5	Math o Gais 33

4.6	Maint y ceisiadau cynllunio Busnes/Masnachol	33
4.7	Ffioedd Ymgeisio	34
4.8	Datblygiad AEA	34
4.9	Cynnwys Swyddogion	35
4.10	Ymgylgoreion	36
4.11	Darparu Gwybodaeth Ychwanegol	36
4.12	Dull Penderfynu	37
4.13	Ymweliadau Safleoedd Aelodau	38
4.14	Penderfyniadau ar Geisiadau	38
4.15	Graddfeydd Amser Penderfynu	39
4.16	Apeliadau Cynllunio	39
4.17	Cytundebau Adran 106	39
4.18	Amodau Cyn-Cychwyn	40
4.19	Dechrau ar y Safle	41

Tablau

Tabl 1: Categoriâu Seilwaith

Tabl 2: Trothwyau Busnes a Masnachol

Tabl 3: Crynodeb o Ymatebion Awdurdodau Cynllunio Lleol

Tabl 4: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Seilwaith a'r Ceisiadau Busnes/Masnachol yn ôl Awdurdod Cynllunio Lleol

Tabl 5: Nifer y Ceisiadau Uwchlaw ac Islaw'r Trothwy

Tabl 6: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau yn ôl Categori Seilwaith

Tabl 7: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio Seilwaith a Dderbyniwyd Fesul Chwarter

Tabl 8: Maint Ceisiadau Cynllun Seilwaith yn ôl Categori

Tabl 9: Ffioedd ar gyfer Ceisiadau Cynllunio Seilwaith yn ôl Categori

Tabl 10: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol yn ôl Categori

Tabl 11: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol a Dderbyniwyd Fesul Chwarter

Tabl 12: Maint y Ceisiadau Cynllunio Busnes a Masnachol yn ôl Categori

Tabl 13: Ffioedd am Geisiadau Cynllunio Busnes/ Masnachol yn ôl Categori

Ffigurau

Ffigur 1: Can Cyn-Ymgeisio

Ffigur 2: Dilysu Ceisiadau Seilwaith

Ffigur 3: Math o Gais

Ffigur 4: Datblygiad AEA

Ffigur 5: Cynnwys Swyddogion

- Ffigur 6: Ymgyngoreion**
- Ffigur 7: Darparu Rhagor o Wybodaeth**
- Ffigur 8: Dull Penderfynu**
- Ffigur 9: Ymweliadau Safleoedd Aelodau**
- Ffigur 10: Penderfyniadau ar Geisiadau**
- Ffigur 11: Graddfeydd Amser Penderfynu**
- Ffigur 12: Apeliadau Cynllunio**
- Ffigur 13: Cytundebau Adran 106**
- Ffigur 14: Nifer yr Amodau Cyn-Cychwyn**
- Ffigur 15: Dechrau ar y Safle yn ôl Blwyddyn**
- Ffigur 16: Cam Cyn-Ymgeisio**
- Ffigur 17: Dilysu Ceisiadau Busnes/Masnachol**
- Ffigur 18: Math o Gais**
- Ffigur 19: Datblygiad AEA**
- Ffigur 20: Cynnwys Swyddogion**
- Ffigur 21: Ymgyngoreion**
- Ffigur 22: Darparu Gwybodaeth Ychwanegol**
- Ffigur 23: Dull Penderfynu**
- Ffigur 24: Ymweliadau Safleoedd Aelodau**
- Ffigur 25: Penderfyniadau ar Geisiadau**
- Ffigur 26: Graddfeydd Amser Penderfynu**
- Ffigur 27: Cytundebau Adran 106**
- Ffigur 28: Amodau Cyn-Cychwyn**
- Ffigur 29: Dechrau ar y Safle yn ôl Blwyddyn**

Lluniadau

- Llun 1: Map 1 - Dosbarthiad Ceisiadau Seilwaith**
- Llun 2: Map 2 - Dosbarthiad Ceisiadau Busnes/Masnachol**

Atodiadau

Atodiad A

Rhestr Termau (Ceisiadau Cynllunio Seilwaith)

Atodiad B

Profforma Cyfweld

Atodiad C

Rhestr Gryno o Geisiadau Cynllunio Seilwaith

Atodiad D

Rhestr Gryno o Geisiadau Busnes/Masnachol

1 Cyflwyniad

Comisiynwyd Arup gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i archwilio'r niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith, ynghyd â phrosiectau busnes/masnachol, a gyflwynwyd i awdurdodau cynllunio lleol dros y cyfnod Ebrill 2005 i Chwefror 2012. Amcan yr ymchwil oedd cael dealltwriaeth well o'r niferoedd o geisiadau cynllunio seilwaith a cheisiadau cynllunio busnes/masnachol a gyflwynwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru er mwyn llywio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Bil Cynllunio (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.1 Cefndir i'r Astudiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried y ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar gyfer Cymru o ran penderfynu ar brosiectau seilwaith a phrosiectau busnes/masnachol. Tynnodd adolygiad 2012 o'r system gynllunio yng Nghymru a gynhaliwyd gan y Grŵp Cyngori Annibynnol¹ sylw at yr oedi a'r cymhlethdodau a wynebir wrth gael caniatadau cynllunio ar gyfer prosiectau mawr, ac amlygodd yr oedi mewn ceisiadau cynllunio seilwaith.

Yn ychwanegol at y wybodaeth am geisiadau cynllunio seilwaith, roedd Llywodraeth Cymru eisiau cael data hefyd ar nifer a maint ceisiadau cynllunio busnes a masnachol. Cwblhaodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar ehangu'r gyfundrefn cynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocad i gynnwys prosiectau busnes a masnachol yn ystod 2013. Gellir gweld ymgynghoriad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn <https://www.gov.uk/government/consultations/nationally-significant-infrastructure-planning-extending-the-regime-to-business-and-commercial-projects>. Ymhellach i'r ymgynghoriad hwn, daeth Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Prosiectau Busnes neu Fasnachol) 2013 i rym yn ystod Rhagfyr 2013. Mae'r rheoliadau hyn yn ehangu'r gyfundrefn i gynnwys prosiectau busnes neu fasnachol, os ystyria'r Ysgrifennydd Gwladol bod arwyddocâd cenedlaethol i brosiect o'r fath a bydd yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwn o dan Adran 35 Deddf Cynllunio 2008.

1.2 Cwmpas a Dull yr Astudiaeth

Cwmpas yr astudiaeth oedd casglu a dadansoddi tystiolaeth ar geisiadau cynllunio seilwaith a cheisiadau cynllunio busnes/masnachol dros y cyfnod Ebrill 2005 i Hydref 2013.

Ceisiadau Cynllunio Seilwaith

Casglwyd data oddi wrth Awdurdodau Cynllunio Lleol am brosiectau seilwaith ar gyfer yr holl geisiadau cynllunio a fyddai y tu allan i Adran 14 Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (y Ddeddf), i'r graddau eu bod yn adlewyrchu materion

¹ Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol. Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Cyngori Annibynnol, Mehefin 2012.

Cynllunio Gwlad a Thref a lle mae cyfrifoldeb am benderfynu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu data ceisiadau cynllunio seilwaith ar gyfer yr holl geisiadau a oedd **islaw** ac **uwchlaw'r** trothwyau ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd fel y'u diffiniwyd yn **Adrannau 15, 17-21, 23-30** y Ddeddf.

Ar gyfer ceisiadau **islaw'r** trothwyau diffiniedig, roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddata ar yr holl ddatblygiadau seilwaith heblaw hynny yr ymgwymerwyd â nhw gyda mantais hawliau datblygu a ganiateir. Nid oedd angen ceisiadau cynllunio ar gyfer mân ddatblygiadau cysylltiedig ac atodol, na gweithiau mân eraill, fel rhan o'r ymchwil hon.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno casglu data ar geisiadau cynllunio seilwaith **uwchlaw'r** trothwyau sydd wedi'u diffinio ar hyn o bryd yn y Ddeddf.

Rhoddir manylion y trothwyau ar gyfer ceisiadau cynllunio seilwaith yn Nhabl 1. Mae'r rhain wedi'u seilio ar y diffiniadau fel y'u hamlinellir yn **Adrannau 15, 17-21, 23-30 y Ddeddf**, ond maent hefyd yn cyfeirio at hawliau datblygu a ganiateir lle bo'n berthnasol.

Categoriâu Seilwaith

Mae Tabl 1 yn disgrifio'r mathau o seilwaith a'r trothwyau sy'n gymwys. Seiliwyd y wybodaeth ar y diffiniadau a amlinellir yn Neddf Cynllunio 2008. Gofynnwyd am wybodaeth ar gyfer ceisiadau uwchlaw ac islaw'r trothwyau. Rhoddir esboniad o'r termau sydd wedi'u hamlygu'n goch yn yr Eirfa (Atodiad 1).

Tabl 1: Categoriâu Seilwaith

Rhif	Math o Gais	Trothwy
1.	Cyfleusterau storio nwy tanddaearol , heb eu hadeiladu gan gludwr nwy, ar gyfer storio nwy dan ddaear mewn ceudodau neu strata difandwll. A Newid cyfleusterau storio nwy dan ddaear	Disgwylir i gapasiti gweithio'r cyfleusterau fod yn 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf, neu disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleusterau fod yn o leiaf 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd. Disgwylir i effaith y newid gynyddu capasiti gweithio'r cyfleusterau neu gyfradd llif uchaf y cyfleusterau 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol, neu i gynyddu cyfradd llif uchaf y cyfleusterau 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd.
2.	Cyfleusterau Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) A Newid cyfleuster LNG	Disgwylir i gapasiti storio'r cyfleuster fod yn o leiaf 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol, neu i'r gyfradd llif uchaf fod yn o leiaf 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd. Disgwylir y bydd effaith y newid fel a ganlyn: a) cynyddu lle storio'r cyfleuster o leiaf 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol, neu b) cynyddu cyfradd llif y cyfleuster gan o leiaf 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd.
3.	Cyfleusterau derbyn nwy A Newid cyfleuster derbyn nwy	Disgwylir i'r gyfradd llif uchaf fod yn fwy na 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd. Disgwylir mai effaith y newid fydd cynyddu cyfradd llif uchaf y cyfleuster o leiaf 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd.

Rhif	Math o Gais	Trothwy
4.	Piblinellau wedi'u hadeiladu gan gludwr nwy	<p>Adeiladu piblinell gan gludwr nwy lle:</p> <p>a) mae'n rhaid i'r biblinell fod yn fwy nag 800 milimetr o ran diamedr ac yn fwy na 40 cilometr o ran hyd; neu</p> <p>b) mae'n rhaid i'r gwaith o adeiladu'r biblinell fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.</p> <p>Rhaid i'r biblinell fod â phwysedd gweithredu dyluniad o fwy na medrydd 7 bar.</p> <p>Rhaid i'r biblinell gludo nwy i'w gyflenwi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i o leiaf 50,000 o gwsmeriaid, neu ddarpar gwsmeriaid, un neu fwy o gyflenwyr nwy.</p>
5.	Datblygu ac adeiladu yn gysylltiedig â maes awyr	<p>Lle mai'r datblygiad yw:</p> <p>a) adeiladu maes awyr;</p> <p>b) newid maes awyr; neu</p> <p>c) cynnydd yn y defnydd a ganiateir o faes awyr.</p> <p>Mae adeiladu maes awyr yn golygu:</p> <p>Disgwylir i'r maes awyr allu darparu gwasanaethau os ydynt yn:</p> <p>a) gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer o leiaf 10 miliwn o deithwyr y flwyddyn; neu</p> <p>b) gwasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 10,000 o symudiadau cludo awyr o awyrennau cargo y flwyddyn.</p> <p>Mae newid maes awyr yn golygu:</p> <p>Yr effaith yw:</p> <p>a) cynyddu, o 10 miliwn y flwyddyn o leiaf, nifer y teithwyr y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr iddynt, neu</p> <p>b) cynyddu, o 10,000 y flwyddyn o leiaf, nifer y symudiadau cludo awyr o awyrennau cargo y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr iddynt.</p> <p>Mae newid, mewn perthynas â maes awyr, yn cynnwys adeiladu, changu neu newid:</p> <p>a) rhedfa yn y maes awyr;</p> <p>b) adeilad yn y maes awyr; neu</p> <p>c) radar neu fast radio, antena neu gyfarpar arall yn y maes awyr.</p> <p>Mae cynnydd yn y defnydd a ganiateir o faes awyr yn golygu:</p> <p>a) mae'n gynydd o 10 miliwn y flwyddyn o leiaf yn nifer y teithwyr y caniateir i'r maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr iddynt, neu</p> <p>b) mae'n gynydd o 10,000 y flwyddyn o leiaf yn nifer y symudiadau cludo awyr awyrennau cargo y caniateir i'r maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr iddynt.</p>

Rhif	Math o Gais	Trothwy
6.	Cyfleusterau harbwr A Newid cyfleusterau harbwr	<p>Lle disgwylir i adeiladu neu newid cyfleusterau harbwr allu delio â byrddio neu lanio o leiaf y maint perthnasol o ddeunydd y flwyddyn.</p> <p>Y maint perthnasol yw:</p> <p>a) Yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cynwysyddion: unrhyw beth llai na 500,000 TEU;</p> <p>b) Yn achos llongau ro-ro: unrhyw beth llai na 250,000 o unedau;</p> <p>c) Yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cargo o unrhyw ddisgrifiad arall, unrhyw beth yn llai na 5 miliwn o dunelli metrig.</p>
7.	Rheilffyrdd A Newid rheilffyrdd	<p>Gwaith i'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol nad ydynt yn dod o dan hawliau datblygu a ganiateir fel y'u cynhwysir yn Erthygl 3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995:</p> <p>Bydd y rheilffordd yn rhan o rwydwaith yn cael ei weithredu gan weithredwr cymeradwy ac mae'n cynnwys darn o drac sy'n:</p> <p>i) ddarn di-dor mwy na 2 cilometr; a</p> <p>ii) nid yw ar dir a oedd yn dir gweithredol ymgwymerwr rheilffordd yn uniongyrchol cyn i'r adeiladu gychwyn neu mae ar dir a gaffaelwyd ar ddyddiad cynharach at ddiben adeiladu'r rheilffordd; a</p> <p>iii) nid yw adeiladu neu newid y rheilffordd yn ddatblygiad a ganiateir.</p> <p>Bydd newid rheilffordd lle mae'r rheilffordd yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr cymeradwy a'r newid ar y rheilffordd yn cynnwys gosod darn o drac sydd:</p> <p>(i) yn ddarn di-dor mwy na 2 cilometr; a</p> <p>(ii) nid yw ar dir a oedd yn dir gweithredol ymgwymerwr rheilffordd yn uniongyrchol cyn i'r gwaith newid gychwyn neu mae ar dir a gaffaelwyd ar ddyddiad cynharach at ddiben y newid; ac</p> <p>(c) nid yw newid y rheilffordd yn ddatblygiad a ganiateir.</p> <p>Nid yw hyn yn cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud ar dir gweithredol ymgwymerwr rheilffordd oni bai y caffaelwyd y tir hwnnw at ddiben yr adeiladu neu'r newid.</p>

Rhif	Math o Gais	Trothwy
8.	Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd A Newid cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd	Adeiladu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd sy'n 60 hectar o ran arwynebedd o leiaf ac: a) yn gallu ymdrin â llwythi o nwyddau gan fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai; a b) o leiaf 4 trên nwyddau y dydd. Rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir dosbarthu nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddull cludiant arall. Rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd beidio â bod yn rhan o sefydliad milwrol. Newid cyfnewidfa nwyddau rheilffordd lle mai'r effaith yw cynyddu, gan 60 hectar o leiaf, yr arwynebedd tir y mae'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd wedi'i lleoli.
9.	Argaeau a chronfeydd dŵr A Newid argaeau a chronfeydd dŵr	Adeiladu argae neu gronfa ddŵr lle a) bydd y gwaith adeiladu'n cael ei wneud gan un neu fwy o ymgymerwyr dŵr ; a b) disgwylir y bydd cyfaint y dŵr sydd i'w ddal yn ôl gan yr argae neu i'w storio yn y gronfa yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig. Newid argae neu gronfa ddŵr lle: a) bydd y newid yn cael ei wneud gan un neu fwy o ymgymerwyr dŵr; a b) disgwylir y bydd cyfaint ychwanegol y dŵr sydd i'w ddal yn ôl gan yr argae neu i'w storio yn y gronfa o ganlyniad i'r newid yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.
10.	Trosglwyddo adnoddau dŵr	Y datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo adnoddau dŵr lle: a) bydd y datblygu'n cael ei wneud gan un neu fwy o ymgymerwyr dŵr ; b) disgwylir y bydd cyfaint y dŵr sydd i'w drosglwyddo o ganlyniad i'r datblygiad yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn; c) bydd y datblygiad yn galluogi trosglwyddo adnoddau dŵr: i) rhwng basnau afon yng Nghymru; ii) rhwng ardaloedd ymgymerwyr dŵr yng Nghymru; neu iii) rhwng basn afon yng Nghymru ac ardal ymgymerwr dŵr yng Nghymru; ac ch) nid yw'r datblygiad yn ymwneud â throsglwyddo dŵr yfed.

Rhif	Math o Gais	Trothwy
11.	Gweithfeydd trin dŵr gwastraff A Newid gweithfeydd trin dŵr gwastraff	Adeiladu gwaith trin dŵr gwastraff lle disgwylir iddo fod â capasiti mwy na hynny sy'n gallu delio â phoblogaeth cyfwerth â 500,000. Prif ddiben y seilwaith fydd: i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin; neu ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin, neu'r ddau, a disgwylir i'r seilwaith fod â capasiti ar gyfer storio dŵr gwastraff sy'n fwy na 350,000 o fetrau ciwbig. Newid y gwaith trin dŵr gwastraff lle disgwylir mai effaith y newid fydd cynyddu capasiti'r gwaith mwy na phoblogaeth cyfwerth â 500,000. Prif ddibyn y seilwaith fydd: i) trosglwyddo dŵr gwastraff i'w drin; neu ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin, neu'r ddau, a disgwylir i'r seilwaith fod â capasiti ar gyfer storio dŵr gwastraff sy'n fwy na 350,000 o fetrau ciwbig.
12.	Cyfleusterau trin gwastraff peryglus A Newid cyfleusterau trin gwastraff peryglus	Adeiladu cyfleuster trin gwastraff peryglus lle disgwylir mai prif ddiben y cyfleuster fydd gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu adfer gwastraff peryglus, ac a) yn achos gwaredu gwastraff peryglus trwy dirlenwi neu mewn cyfleuster storio dwfn , mwy na 100,000 o dunelli metrig y flwyddyn; b) yn unrhyw achos arall, mwy na 30,000 o dunelli metrig y flwyddyn. Newid cyfleuster trin gwastraff peryglus lle disgwylir mai prif ddiben y cyfleuster fydd gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu adfer gwastraff peryglus, ac a) yn achos gwaredu gwastraff peryglus trwy dirlenwi neu mewn cyfleuster storio dwfn, cynyddu capasiti'r cyfleuster mwy na 100,000 o dunelli metrig y flwyddyn; b) yn unrhyw achos arall, cynyddu capasiti'r cyfleuster mwy na 30,000 o dunelli metrig y flwyddyn.
13.	Piblinellau <u>heb</u> eu hadeiladu gan gludwr nwy	Piblinell llai na 16.093 cilometr o hyd sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.
14.	Gorsafodd cynhyrchu (ar y tir)	Datblygiad arfaethedig rhwng 25 megawat a 50 megawat yn gynhwysol.

Ceisiadau Cynllunio Busnes a Masnachol

Gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu data hefyd ar geisiadau cynllunio busnes a masnachol ar gyfer y trothwyau canlynol a amlinellir yn Nhabl 2.

Mae'r categorïau a'r trothwyau yn Nhabl 2 wedi'u seilio ar ymgynghoriad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ehangu'r gyfundrefn cynllunio seilwaith cenedlaethol ei arwyddocad i gynnwys prosiectau busnes a masnachol. Fodd bynnag, at ddibenion casglu data ystyrion ar gymwysiadau yng Nghymru,

gostyngwyd y trothwyau, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, o gynigion yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer Lloegr.

Gostyngwyd y trothwyau i 20,000m² o 40,000 m² ar gyfer swyddfeydd a chyfleusterau ymchwil a datblygu, gweithgynhyrchu a phrosesu, warysau, storio a dosbarthu a chanolfannau cynadledda ac arddangos. Gostyngwyd y trothwy ar gyfer hamdden, twristiaeth a chwaraeon ac adloniant i 50ha a 20,000 o seddi o 100ha a 40,000 o seddi. Hepgorwyd mwynloddio yn benodol o'r categori diwydiannau echdynnol. Mae'r trothwyau ar gyfer y categorïau diwydiannau echdynnol eraill (fel cynigion chwarella) wedi'u cynnwys, ond maent wedi'u lleihau o hanner o gategoriâu cyfatebol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Yn olaf, gostyngwyd y trothwy arwynebedd llawer ar gyfer datblygiad defnydd cymysg i 50,000m² o 100,000m².

Tabl 2: Trothwyau Busnes a Masnachol

Math o Ddatblygiad	Trothwy
Swyddfeydd a chyfleusterau ymchwil a datblygu	Dros 20,000m ² o arwynebedd llawr mewnol gros
Gweithgynhyrchu a phrosesu	Dros 20,000m ² o arwynebedd llawr mewnol gros
Warysau, storio a dosbarthu	Dros 20,000m ² o arwynebedd llawr mewnol gros
Canolfannau cynadledda ac arddangos	Dros 20,000m ² o arwynebedd llawr mewnol gros
Hamdden, twristiaeth a chwaraeon ac adloniant	Arwynebedd - dros 50 hectar Stadia chwaraeon, lle mai'r capasiti eistedd yw 20,000 o seddi o leiaf
Diwydiannau echdynnol (chwarela yn unig). Yn cynnwys cynigion ar gyfer: Echdynnu olew a nwy ar y tir Cynigion chwarella	 Dros 250 o dunelli metrig y dydd ar gyfer petrolewm a 250,000 o fetrau ciwbig y dydd ar gyfer nwy Dros 50 hectar
Datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys, er enghraifft, parciau busnes defnydd cymysg. (Mae defnydd cymysg yn cynnwys un neu fwy o'r defnyddiau uchod, ond nid yw'n cynnwys datblygiad tai neu lle bo manwerthu yn brif ddefnydd).	Dros 50,000m ² o arwynebedd llawr

Data Ceisiadau

Gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn y lle cyntaf ddarparu data ar gyfer ceisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol, sy'n berthnasol i'r trothwyau, ar gyfer y meysydd canlynol:

- Enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol;
- Swyddog achos;
- Rhif cyfeirnod ceisiadau;
- Math o geisiadau (amlinellol, llawn, materion a gadwyd yn ôl);

- Swm ffi'r cais cynllunio (£);
- Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, yn cynnwys maint;
- Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) neu ddatblygiad heb AEA;
- Dyddiad gwneud y cais;
- Dyddiad dilysu;
- Penderfyniad a dyddiad y penderfyniad;
- Ceisiadau a benderfynwyd ar apêl; a
- Cheisiadau cynllunio cysylltiedig, lle bo'n berthnasol.

Darparwyd arweiniad ar ddata ceisiadau priodol i'w gynnwys yn y ffurflen ddata i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ffurf Canllaw Ategol manwl.

Fodd bynnag, cafodd llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol anawsterau yn darparu'r data yn y fformat gofynnol oherwydd y wybodaeth benodol yr oedd ei hangen ar gyfer y cais. Nid oedd gan nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol y gallu yn fewnol i hidlo'r data ar gyfer ceisiadau yn electronig, na'r adnoddau i baratoi'r data â llaw. O ganlyniad, darparodd y rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol restr o'r holl brif geisiadau dros gyfnod y data i Arup, a bu'r rhain wedyn yn destun ymarfer didoli cychwynnol er mwyn dileu ceisiadau anaddas.

Arweiniodd y broses hon at "restr hir" o geisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol. Cafodd y rhestri hir hyn eu hidlo gan Arup a'r Grŵp Llywio, yn unol â'r trothwyau a amlinellwyd yn y Canllaw Ategol, er mwyn dileu unrhyw ddata gwallus ac unrhyw geisiadau a oedd yn rhy fach i'w hystyried. Dylid nodi, ar gyfer ceisiadau ffermydd gwynt (gorsafoddd cynhyrchu ar y tir), bod trothwy o 10 tyrbîn neu fwy wedi'i gymhwyso er mwyn canolbwyntio'r ymchwil ar gynlluniau'r ffermydd gwynt mwy.

Ar ôl cwblhau'r broses hidlo hon, trefnwyd cyfweiliadau gyda swyddogion Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn casglu gwybodaeth fanylach am bob cais a ddewiswyd. Cynhaliwyd pob cyfweiliad gan ddilyn profforma strwythuredig, y rhoddir copi ohono yn Atodiad B.

1.3 Strwythur yr Adroddiad

Nod yr adroddiad hwn yw darparu sail dystiolaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Cynllunio sydd ar y gweill. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn ymateb i'r data yn bennaf. Cyflwynir canlyniadau'r ymchwil mewn fformatau tablaidd ac enghreifftiol gyda graffiau a siartiau. Amlygir tueddiadau allweddol yn y data ym mhob adran. Amlinellir strwythur yr adroddiad isod:

- Mae Adran 2 yn amlinellu canfyddiadau cyffredinol yr ymchwil ar gyfer ceisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol; ac
- Mae Adranau 3 a 4 yn cyflwyno dadansoddiad manwl o'r ceisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol yn y drefn honno.

1.4 Cydnabyddiaethau

Roedd y tîm astudio craidd yn cynnwys:

- Kieron Hyams (Cyfarwyddwr y Prosiect);
- Jessica Jones (Rheolwr y Prosiect);
- Natalie Queffurus; a
- Liz Derry.

Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad a chynghor y Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys:

- Neil Hemington, Llywodraeth Cymru;
- Teresa Davies, Llywodraeth Cymru; a
- Brian Davies, Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ddarparodd y data ar gyfer yr ymchwil ac i'r swyddogion a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ceisiadau.

2 Adolygiad o'r Ceisiadau a Ystyriwyd

2.1 Cyflwyniad

Rhoddodd yr ymchwil i geisiadau adolygiad cynhwysfawr o geisiadau cynllunio seilwaith a cheisiadau cynllunio busnes/masnachol yng Nghymru. Dylid nodi nad ymgwymerwyd ag astudiaethau achos manwl o geisiadau unigol. Yn hytrach, nod yr ymchwil oedd nodi tueddiadau yn y broses ymgeisio. O ganlyniad, cyflwynir y data yn graffig ac ar ffurf tablaid. Mewn rhai achosion, daethpwyd ar draws problemau o ran cyhoeddi penderfyniadau amserol yn deillio o weithredu'r system gynllunio bresennol ac o arfer gwael gan ymgeiswyr, asiantau ac Awdurdodau Cynllunio Lleol. Amlygir tueddiadau allweddol yn y data ceisiadau a phroblemau a wynebwyd yn y broses gynllunio ar gyfer geisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol yn yr adran berthnasol o'r adroddiad.

2.2 Cyfyngiadau'r Data

Cafwyd nifer o broblemau yn ystod yr ymarfer casglu data. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Lle bo modd, cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a/neu gyfweiliadau ffôn gyda swyddogion achos er mwyn deall "cylch bywyd" pob cais cynllunio. Mewn sefyllfaoedd, lle nad oedd swyddogion ar gael neu lle'r oeddent wedi gadael yr Awdurdod Cynllunio Lleol, cynhaliwyd adolygiad o ffeiliau achos y ceisiadau. Lle cynhaliwyd adolygiad o ffeiliau, gwelwyd arfer cadw cofnodion gwael yn aml. Roedd hyn yn arbennig o broblematig ar gyfer rhai o'r ceisiadau hyn. Gwaethygyd hyn gan natur fylchog cofnodion electronig ar gyfer ceisiadau cynnar yng nghyfnod y data, a olygai na ellid croeswrio gwybodaeth bob tro na chwilio'u ffynhonnell o systemau electronig ar-lein neu systemau mewnol Awdurdodau Cynllunio Lleol os oedd y ffeiliau achos yn ddiffygiol. I'r gwrthwyneb, ar gyfer y ceisiadau mwyaf diweddar, roedd rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu darparu ystod eang o ddata ceisiadau o'u systemau "cefn swyddfa".
2. Amlygodd y defnydd cymysg o systemau ceisiadau ar ffurf ffeiliau a ffurf electronig gan Awdurdodau Cynllunio Lleol fod problem arbennig gyda chadw cofnodion anghyson rhwng systemau. Er enghraifft, gall gohebiaeth ymgeisio gael ei chynnal i raddau helaeth drwy'r e-bost gyda'r ymgeisydd neu'r asiant. Fodd bynnag, nid yw gohebiaeth e-bost yn cael ei hargraffu a'i gosod ar y ffeil bob tro. Yn yr un modd, gall gwybodaeth gael ei chadw ar y "system" at ddefnydd swyddogion, ond efallai na fydd ar y ffeil ceisiadau mewn gwirionedd. Roedd systemau data ar-lein yn amrywio'n fawr hefyd rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae argaeledd a chywirdeb gwybodaeth ymgeisio ddiweddar yn bryder, yn enwedig i aelodau'r cyhoedd nad ydynt efallai'n gwybod "ble i edrych" wrth archwilio ffeiliau ceisiadau. Mae hyn yn codi mater cysondeb mewn gwybodaeth ac ymdrin â data gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.
3. Nid oedd modd bob tro casglu data'n benodol mewn perthynas â throthwyau unigol, a hynny yn sgil y ffaith fod mwyafrif y ceisiadau naill ai wedi'u cyflwyno cyn cyflwyno'r gyfundrefn Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd neu nid oeddent wedi'u cyflwyno o ran trothwyau Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd am fod y cais wedi'i wneud trwy

Iwybr y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Er enghraifft, nid oedd data ar geisiadau datblygu'n gysylltiedig â meysydd awyr yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cludo teithwyr awyr na gwasanaethau cludo cargo awyr. Mewn achosion lle mae data sy'n berthnasol i'r trothwyau yn absennol, mae barn broffesiynol wedi'i gwneud ar ba un a yw'r cais uwchlaw neu islaw'r trothwy. Yn yr un modd, cyflwynwyd nifer o geisiadau busnes/masnachol ar ffurf ceisiadau amlinellol. O ganlyniad, nid oedd manylion arwynebedd llawr ar gael bob tro. Lle na fu modd dosbarthu cais, rhoddir esboniad o'r rhesymau pam na fu modd gwneud ar gyfer y cais perthnasol.

4. Lle bynnag y bo modd, cafodd ceisiadau bach eu dileu yn ystod y broses sifftio a hidlo. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, roedd yn amhosibl nodi maint ceisiadau o'r data sylfaenol a ddarparwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol hyd nes bod y gwaith ymchwil manwl wedi'i wneud.
5. Yn wreiddiol, gofynnodd Llywodraeth Cymru am wybodaeth benodol am nifer a graddau swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r cam cyn-ymgeisio a'r cam ymgeisio. Fodd bynnag, nid oedd modd casglu'r data hwn yn ystyrlon yn y ffurf ofynnol gan nad yw'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cofnodi gwybodaeth yn y fformat hwn. Yn yr un modd, roedd yn anodd dod o hyd i wybodaeth hanesyddol lle'r oedd graddau swyddogion wedi newid dros amser, neu lle'r oedd swyddogion wedi gadael yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. O ganlyniad, casglwyd gwybodaeth am y math o swyddogion a oedd yn gysylltiedig yn ôl adran, a hynafedd swyddogion lle'r oedd modd adalw'r wybodaeth hon.
6. Roedd gwybodaeth am drafodaethau cyn-ymgeisio yn wael ar gyfer ceisiadau seilwaith a cheisiadau busnes/masnachol. Mewn llawer o achosion, nid oedd unrhyw gofnodion eglur o drafodaethau cyn-ymgeisio neu ni allai swyddogion gofio a oedd trafodaethau cyn-ymgeisio wedi'u cynnal. Mewn rhai achosion, roedd swyddogion yn gallu rhoi amcangyfrifon o amser a dreulwyd ar drafodaethau cyn-ymgeisio. Fodd bynnag, eithriad prin oedd hwn. Gofynnwyd am wybodaeth hefyd am ffioedd ar gyfer trafodaethau cyn-ymgeisio. Nid oedd unrhyw achosion o ffioedd yn cael eu codi trwy gydol y set ddata, fodd bynnag. Yn yr un modd, roedd gwybodaeth am ffioedd a godwyd am gytundebau Adran 106 yn gyfyngedig eithriadol hefyd.
7. Amrywiol hefyd oedd argaeledd y data ar weithdrefnau ôl-penderfyniad, gyda llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol heb fod yn gwybod a oedd amodau wedi'u cyflawni neu a oedd gwaith datblygu wedi dechrau ar safle. Roedd gwybodaeth am geisiadau Adran 73 a mân newidiadau yn eisiau hefyd mewn rhai achosion.

2.3 Data Cryno

Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol gyda Cheisiadau o fewn y Trothwyau

Roedd cyfanswm o 22 o Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi cyfranogi yn yr ymchwil. Rhoddir crynodeb o'r ymateb gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Nhabl 3. Fodd bynnag, dylid nodi y cafwyd ymateb gyda dim ceisiadau gan dri o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; hynny yw, cadarnhaodd yr Awdurdodau Cynllunio

Lleol na chawsant unrhyw geisiadau yn y categorïau seilwaith na busnes/masnachol. O ganlyniad, roedd gan 19 o Awdurdodau Cynllunio Lleol geisiadau yn dod o fewn y categorïau perthnasol ar gyfer yr ymchwil.

Tabl 3: Crynodeb o Ymatebion Awdurdodau Cynllunio Lleol

Rhif	Awdurdod Cynllunio Lleol	Ymateb	
		Do	Naddo
1	Ynys Môn	✓	
2	Blaenau Gwent	✓	
3	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	✓	
4	Pen-y-bont ar Ogwr	✓	
5	Caerffili	✓*	
6	Caerdydd		✓
7	Sir Gaerfyrddin	✓	
8	Ceredigion	✓	
9	Conwy	✓	
10	Sir Ddinbych	✓	
11	Sir y Fflint	✓	
12	Gwynedd	✓	
13	Merthyr Tudful	✓*	
14	Sir Fynwy	✓	
15	Castell-nedd Port Talbot	✓	
16	Casnewydd	✓	
17	Sir Benfro	✓	
18	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	✓*	
19	Powys	✓	
20	Rhondda Cynon Taf	✓	
21	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	✓	
22	Abertawe	✓	
23	Torfaen		✓
24	Bro Morgannwg	✓	
25	Wrecsam		✓
	Cyfanswm Ymatebion	22	3
	Cyfanswm Ymatebion Heb Gynnwys Ymatebion dim Ceisiadau	19	-

* Darparwyd ymateb 'dim ceisiadau'.

Hyder yn y Data

Yn sgil yr ymateb da gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar hyd a lled Cymru, ystyrir y gellir priodoli lefel uchel o hyder i gipio'r data ar ystod a graddfa


ceisiadau cynllunio seilwaith. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb ymatebion gan 3 Awdurdod Cynllunio Lleol, sef Caerdydd a Wrecsam yn fwyaf nodedig, rhaid ystyried bod llai o hyder yn nata'r ceisiadau busnes/masnachol oherwydd ei bod yn debygol bod ceisiadau busnes/masnachol graddfa fawr yn eisiau o'r awdurdodau trefol hyn.

Cyfanswm y Ceisiadau


Cafodd cyfanswm o 187 o geisiadau cynllunio seilwaith a cheisiadau cynllunio busnes/masnachol eu dadansoddi ar draws 19 o Awdurdodau Cynllunio Lleol, ar gyfer cyfnod y data Ebrill 2005 hyd at Hydref 2013, yn cynnwys 107 o geisiadau seilwaith ac 80 o geisiadau busnes/masnachol. Rhoddir crynodeb yn Nhabl 4 o gyfanswm nifer y ceisiadau. Dangosir dosbarthiad ceisiadau yn ddaearyddol ar Fapiau 1 a 2. Heb fod yn syndod efallai, dangosodd y data mai Awdurdodau Cynllunio Lleol trefol, yn ne ddwyrain Cymru, oedd yn tueddu bod â'r nifer fwyaf o geisiadau ar gyfer y ddau fath o ddatblygiad.

Tabl 4: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Seilwaith a'r Ceisiadau Busnes/Masnachol yn ôl Awdurdod Cynllunio Lleol

Awdurdod Cynllunio Lleol	Ceisiadau Seilwaith	Ceisiadau Busnes/Masnachol	Cyfanswm
Ynys Môn	14	1	15
Blaenau Gwent	0	2	2
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	1	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	7	10	17
Sir Gaerfyrddin	5	0	5
Ceredigion	2	5	7
Conwy	6	0	6
Sir Ddinbych	4	3	7
Sir y Fflint	2	12	14
Gwynedd	3	3	6
Sir Fynwy	1	1	2
Castell-nedd Port Talbot	14	6	20
Casnewydd	10	5	15
Sir Benfro	5	0	5
Powys	9	0	9
Rhondda Cynon Taf	9	4	13
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	2	0	2
Abertawe	7	15	22
Bro Morgannwg	6	13	19
CYFANSWM	107	80	187



Llun 1: Map 1 - Dosbarthiad Ceisiadau Seilwaith



Llun 2: Map 2 - Dosbarthiad Ceisiadau Busnes/Masnachol

2.4 Crynodeb o'r Ceisiadau

Mae rhestr cryno o'r ceisiadau cynllunio seilwaith a'r ceisiadau cynllunio busnes/masnachol yn cael eu rhoi yn Atodiadau C ac Ch yn y drefn honno. Mae'r wybodaeth gryno yn cynnwys y data canlynol:

- Awdurdod cynllunio lleol;
- Rhif cais cynllunio;
- Enw'r prosiect;
- Disgrifiad o'r datblygiad;
- Graddfa'r datblygiad; a
- Chategori'r cais uwchlaw neu islaw'r trothwy seilwaith a'r trothwy busnes/masnachol. Lle na fu modd categoreiddio cais oherwydd diffyg data perthnasol ar raddfa'r datblygiad arfaethedig, caiff hyn ei esbonio ym mhob tabl cryno.

Cyflwynir nifer y ceisiadau sydd uwchlaw neu islaw'r trothwyau yn Nhabl 5.

Tabl 5: Nifer y Ceisiadau Uwchlaw ac Islaw'r Trothwy

Uwchlaw'r Trothwy	Islaw'r Trothwy	Dim modd Dosbarthu	Cyfanswm
Ceisiadau Seilwaith			
32	61	14	107
Ceisiadau Busnes/Masnachol			
17	60	3	80

3 Ceisiadau Cynllunio Seilwaith

3.1 Cyfanswm Nifer y Ceisiadau

Datgelodd yr ymchwil gyfanswm o 107 o geisiadau cynllunio o fewn y categorïau seilwaith. Roedd hyn yn amrywio o 81 o geisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu (ar y tir), i 1 cais yn y categori argaeau a chronfeydd dŵr. Mae Tabl 6 yn rhoi crynodeb o nifer y ceisiadau yn ôl y categori seilwaith.

Tabl 6: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau yn ôl Categori Seilwaith

Categori Seilwaith	Cyfanswm
Cyfleusterau storio nwy tan ddaear	0
Cyfleusterau Nwy Naturiol Hylifedig (LNG)	3
Cyfleusterau derbyn nwy	0
Piblinellau wedi'u hadeiladu gan gludwr nwy	1
Datblygu ac adeiladu'n gysylltiedig â maes awyr	5
Cyfleusterau harbwr	2
Rheilffyrdd	1
Cyfnwidfeydd nwyddau rheilffordd	2
Argaeau a chronfeydd dŵr	1
Trosglwyddo adnoddau dŵr	0
Gwaith trin dŵr gwastraff	7
Cyfleusterau trin gwastraff peryglus	1
Piblinellau heb eu hadeiladu gan gludwr nwy	3
Gorsafoedd cynhyrchu	81
CYFANSWM	107

3.2 Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd Fesul Blwyddyn

Mae Tabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau seilwaith a dderbyniwyd fesul chwarter rhwng Ebrill 2005 a Hydref 2013.

Tabl 7: Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio Seilwaith a Dderbyniwyd Fesul Chwarter

Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Seilwaith a Dderbyniwyd Fesul Chwarter					
Blwyddyn	Chwarter				Cyfanswm
	1af	2il	3ydd	4ydd	
2002*	0	0	1	0	1
2005	1af	2il	3ydd	4ydd	
	1	2	2	1	6
2006	1af	2il	3ydd	4ydd	
	1	3	6	1	11
2007	1af	2il	3ydd	4ydd	
	1	8	3	2	13

Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Seilwaith a Dderbyniwyd Fesul Chwarter					
Blwyddyn	Chwarter				Cyfanswm
2008	1af	2il	3ydd	4ydd	
	2	3	5	6	16
2009	1af	2il	3ydd	4ydd	
	2	1	4	1	8
2010	1af	2il	3ydd	4ydd	
	1	0	2	7	11
2011	1af	2il	3ydd	4ydd	
	7	1	2	4	14
2012	1af	2il	3ydd	4ydd	
	6	3	1	2	12
2013	1af	2il	3ydd	4ydd	
	6	3	6	0	15
				CYFANSWM	107


*Cais a gyflwynwyd cyn 2005, ond a benderfynwyd o fewn y cyfnod amser Ebrill 2005-Hydref 2013

Mae patrwm cyflwyniadau ceisiadau cynllunio yn gyson dros gyfnod, gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn derbyn llai na 10 o geisiadau ar ddau achlysur yn unig yn 2005 a 2009.

3.3 Cam Cyn-Ymgeisio

O'r 107 o geisiadau seilwaith a ddadansoddwyd, roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau (68%) yn cynnwys cam cyn-ymgeisio. Dangosir hyn yn Ffigur 1. Fodd bynnag, dynododd yr ymchwiler bod yr arfer o gadw cofnodion o drafodaethau cyn-ymgeisio yn wael. Roedd rhai swyddogion yn gallu darparu dyddiadau cyfarfodydd penodol a/neu ddigwyddiadau ymgynghori cyn-ymgeisio, a dylid ystyried hyn yn arfer gorau. Gan mwyaf, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o drafodaethau cyn-ymgeisio ar ffeil.


Ni wnaeth mwyafrif helaeth yr Awdurdodau Cynllunio Lleol godi tâl am gyfarfodydd cyn-ymgeisio. Dylid nodi, fodd bynnag, fod rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi cynghori bod ffioedd cyn-ymgeisio wedi'u cyflwyno'n ddiweddar.



Ffigur 1: Can Cyn-Ymgeisio

3.4 Dilysu


Gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu gwybodaeth am y dyddiad y derbyniwyd ceisiadau, a'r dyddiad dilysu. Mae'r dadansoddiad yn dynodi bod mwyafrif y ceisiadau (62% ar draws y cyfnod amser) wedi'u dilysu ar yr un diwrnod â'u derbyn. Fodd bynnag, bu oedi o fwy nag wyth niwrnod o ran dilysu ar gyfer rhyw chwarter o geisiadau (27%), gydag oedi o dros 10 mis ar gyfer un cais. Roedd y rhesymau am yr oedi o ran dilysu yn amrywio, ond yn nodweddiadol achoswyd yr oedi yn sgil gwybodaeth annigonol am gais yn cael ei chyflwyno gan yr ymgeisydd, anghysonderau mewn cynlluniau ceisiadau, tystysgrifau perchennogaeth tir ac anghydfodau ynghylch y ffi cais cynllunio.



Ffigur 2: Dilysu Ceisiadau Seilwaith

3.5 Math o Gais

Mae Ffigur 3 yn dangos y gwnaed mwyafrif helaeth y ceisiadau seilwaith fel ceisiadau cynllunio llawn (96%). O ran y cais Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP), dylid nodi ei fod wedi'i gynnwys yn y categori seilwaith am ei fod yn ymwneud â chyfleuster trin gwastraff peryglus. Yn yr achos hwn, mae tywod yn cael ei echdynnu a'i ddefnyddio fel rhan o'r strategaeth adfer ar gyfer y cyfleuster trin gwastraff peryglus ac nid yw'n "llwyddo" yn ystyr traddodiadol echdynnu mwynau.



Ffigur 3: Math o Gais

3.6 Maint Ceisiadau Cynllunio Seilwaith

Mae Tabl 8 yn crynhoi maint ceisiadau cynllunio seilwaith yn ôl categori. Oherwydd nifer y ceisiadau hanesyddol, na wnaeth ddarparu gwybodaeth ymgeisio o fewn meini prawf Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, mae dadansoddi meintiau cyffredinol y categorïau datblygu yn broblematic. Fodd bynnag, lle darparwyd gwybodaeth, cynhwysir hon yn y tabl.

Tabl 8: Maint Ceisiadau Cynllun Seilwaith yn ôl Categori

Categori Seilwaith	Nifer	Lleiaf	Mwyaf	Cyfartal- edd	Canol- rif	Nifer Uwchlaw'r Trothwy	Nifer islaw'r Trothwy	Heb Allu Dosbarthu
Cyfleusterau storio nwy tan ddaear	0	-	-	-	-	0	0	0
Cyfleusterau LNG	3	84.95m o fetrau ciwbig y dydd	-	-	-	2	0	1
Cyfleusterau derbyn nwy	0	-	-	-	-	0	0	0
Piblinellau wedi'u hadeiladu gan gludwr nwy	1	1.2 cilometr	-	-	-	0	1	0
Datblygu ac adeiladu yn gysylltiedig â maes awyr	5	600 o deithwyr	-	-	-	0	2	3
Cyfleusterau harbwr	2	0.25ha	4ha	2.13ha	2.13ha	0	0	2
Rheilffyrdd	1	840m	-	-	-	0	1	0
Cyfnwidfeydd nwyddau rheilffordd	2	2.7ha	12.07ha	7.4ha	7.4ha	0	2	0
Argaeau a chronfeydd dŵr	1	13,360 m3	-	-	-	0	1	0
Trosglwyddo adnoddau dŵr	0	-	-	-	-	0	0	0
Gweithfeydd trin dŵr gwastraff	7	2,200 o bobl	70,000 o bobl	36,100 o bobl	36,100 o bobl	0	2	5
Cyfleusterau trin gwastraff peryglus	1	125,000 o dunelli metrig	-	-	-	1	0	0
Piblinellau heb eu hadeiladu gan gludwr nwy	3	1.2 cilometr	16 cilometr	9.1 cilometr	9.1 cilometr	0	3	0
Gorsafoedd cynhyrchu (ar y tir)	81	0.006MW	50MW	19MW	19MW	29	48	4
CYFANSWM	107					32	60	15

3.7 Ffioedd Ymgeisio


Mae Tabl 9 yn rhoi crynodeb o'r ffioedd ceisiadau cynllunio a oedd yn daladwy yn ôl categori seilwaith. Yn nodedig, y categori gorsafoedd cynhyrchu (ar y tir) a ddenodd y ffi ymgeisio uchaf (gwirioneddol, cyfartalog a chanolrif), yn ogystal â'r ffi isaf (£166 ar gyfer ceisiadau Adran 73).

Tabl 9: Ffioedd ar gyfer Ceisiadau Cynllunio Seilwaith yn ôl Categori

Categori Datblygiad Seilwaith	Nifer y Ceisiadau	Isaf	Uchaf	Cyfartalog	Canolrif
Cyfleusterau storio nwy tan ddaear	0	-	-	-	-
Cyfleusterau LNG	3	£166.00	£25,280.00	£12,723.00	£12,723.00
Cyfleusterau derbyn nwy	0	-	-	-	-
Piblinellau wedi'u hadeiladu gan gludwr nwy	1	£24,852.00	-	-	-
Datblygu ac adeiladu yn gysylltiedig â maes awyr	5	£166.00	£29,644.00	£11,730.00	£12,008.00
Cyfleusterau harbwr	2	£1,210.00	£11,550.00	£6,380.00	£6,380.00
Rheilffyrdd	1	£1,992.00	-	-	-
Cyfnwidfeydd nwyddau rheilffordd	2	£632.00	£5,695.00	£3,164.00	£3,164.00
Argaeau a chronfeydd dŵr	1	£10,126.00	-	-	-
Trosglwyddo adnoddau dŵr	0	-	-	-	-
Gweithfeydd trin dŵr gwastraff	7	£316.00	£13,860.00	£6,467.83	£5,533.00
Cyfleusterau trin gwastraff peryglus	1	Nil ROMP	-	-	-
Piblinellau heb eu hadeiladu gan gludwr nwy	3	£1,680.00	£32,722.00	£17,201.00	£17,201.00
Gorsafoedd cynhyrchu (ar y tir)	81	£166.00	£250,000.00	£35,729.00	£20,138.00
CYFANSWM	107				

3.8 Datblygiad Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol


Dangosir cyfran y ceisiadau seilwaith a nodwyd fel datblygiad AEA (57%) a heb fod yn ddatblygiad AEA (42%) yn Ffigur 4. Diddorol yw nodi cyfran gymharol uchel y datblygiadau heb fod yn ddatblygiadau AEA o ystyried graddfa a math y datblygiadau sy'n gysylltiedig â llawer o'r categorïau seilwaith.



Ffigur 4: Datblygiad AEA

3.9 Cynnwys Swyddogion


Fel y dangosir yn Ffigur 5, roedd bron pob un o'r ceisiadau (93%) yn cynnwys 1-10 o swyddogion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyrannwyd uwch swyddog achosion i ddelio â cheisiadau seilwaith. Yr adrannau mewnol yr ymgynghorwyd â nhw'n fwyaf rheolaidd o fewn awdurdodau lleol oedd yr adrannau priffyrdd, iechyd amgylcheddol, draeniad a hawliau tramwy. Fodd bynnag, roedd y nifer a'r math o swyddogion a gynhwyswyd yn y ceisiadau yn amrywiol tu hwnt, gan ddibynnu ar gymhlethdod y cynllun a'r materion technegol a oedd ynghlwm, gyda rhai ceisiadau'n cynnwys cyn lleied â 3 swyddog. I'r gwrthwyneb, roedd 7 cais yn cynnwys 10 o swyddogion neu fwy.



Ffigur 5: Cynnwys Swyddogion

3.10 Ymgynghoreion


Roedd nifer y sefydliadau ymgynghoreion a gynhwyswyd yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd yn cynnwys 1-10 o sefydliadau'n bennaf, fel y dangosir yn Ffigur 6. Roedd rhai ceisiadau'n cynnwys nifer gryn dipyn yn fwy o ymgynghoreion, gydag un cais fferm wynt yn cynnwys oddeutu 37 ymgynghorai. Yr ymgynghoreion a restrwyd amlaf oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt, a'r hen Asiantaeth Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru), Dŵr Cymru ac adrannau Trafnidiaeth a Chynllunio Llywodraeth Cymru. Ymgynghorwyd yn rheolaidd hefyd ag ymgynghoreion arbenigol yn cynnwys Cadw, grwpiau archeolegol a grwpiau bywyd gwyllt lleol.



Ffigur 6: Ymgynghoreion

3.11 Darparu Gwybodaeth Ychwanegol


Roedd y rhan fwyaf o geisiadau (67%) yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth ychwanegol fel y dangosir yn Ffigur 7. Mewn llawer o achosion, cododd ceisiadau am wybodaeth ychwanegol yn dilyn ceisiadau am ragor o fanylion gan ymgynghoreion. Roedd y raddfa amser ar gyfer darparu gwybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr yn amrywiol tu hwnt, gan arwain at oedi hir i rai ceisiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion lle'r oedd angen gwybodaeth ychwanegol, dywedodd swyddogion fod hyn yn cynnwys gohebiaeth barhaus yn ogystal â chyfarfodydd gydag ymgeiswyr.



Ffigur 7: Darparu Rhagor o Wybodaethh

3.12 Dull Penderfynu

Mae Ffigur 8 yn dangos bod mwyafrif y ceisiadau seilwaith (71%) wedi'u penderfynu mewn Pwyllgor. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eu gweithdrefnau eu hunain a graddau amrywiol o ymreolaeth ar gyfer cynlluniau dirprwyo swyddogion i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae'r duedd o benderfyniadau gan Bwyllgor ar gyfer ceisiadau cynllunio seilwaith i'w gweld yn glir.




Ffigur 8: Dull Penderfynu

3.13 Ymweliadau Safleoedd Aelodau

Fel y dangosir gan Ffigur 9, nid oedd mwyafrif y ceisiadau (57%) yn mynnu ymweliad safle Aelodau. Mewn rhai achosion, cynhaliwyd ymweliadau safleoedd ar yr un diwrnod neu'n fuan cyn y Pwyllgor yn ôl pob tebyg am fod Aelodau wedi gofyn am ymweliad safle ymlaen llaw. Fodd bynnag, mewn achosion lle cafodd


ceisiadau eu gohirio, yn dilyn cais am ymweliad safle mewn Pwyllgor, arweiniodd hyn at oedi tra bod ymweliad safle'n cael ei drefnu ac wrth adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cais ar ôl ei ohirio.



Ffigur 9: Ymweliadau Safleoedd Aelodau

3.14 Penderfyniadau ar Geisiadau

Mae Ffigur 10 yn dangos y penderfyniadau a wnaed ar gyfer y 107 o geisiadau seilwaith yn ystod cyfnod y data. Gellir gweld bod mwyafrif y ceisiadau wedi'u cymeradwyo neu wedi elwa ar benderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar gwblhau cytundeb A106 yn foddhaol. Bu tri chais yn destun Adolygiad Barnwrol a ystyriwyd un cais yn y Llys Apêl. Penderfynwyd yn derfynol ar un cais gan yr awdurdod cynllunio lleol am na ddarparwyd digon o wybodaeth gan yr ymgeisydd.




Ffigur 10: Penderfyniadau ar Geisiadau

3.15 Graddfeydd Amser Penderfynu

Fel y dangosir yn Ffigur 11, cymerodd nifer fawr o geisiadau seilwaith fwy na 52 wythnos i'w penderfynu. Fodd bynnag, penderfynwyd ar 33% o geisiadau o fewn y targedau 8 neu 16 wythnos ar gyfer datblygiad heb AEA neu ddatblygiad AEA. Penderfynwyd ar 13% o geisiadau o fewn llai nag 8 wythnos. Ar gyfer ceisiadau a gafodd benderfyniad amserol, y sylw cyffredinol gan swyddogion oedd bod trafodaethau ac ymgynghori cyn-ymgeisio wedi bod o fudd o ran prosesu'r cais.


Mae dosbarthiad ceisiadau a aeth dros 16 wythnos yn awgrymu y gall ceisiadau, oni bai y gellir penderfynu arnynt o fewn eu graddfeydd amser targed, aros heb benderfyniad am gyfnodau hir, ac mewn achosion eithafol, am nifer o flynyddoedd. Y rhesymau mwyaf cyffredin am oedi oedd ceisiadau am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd, ceisiadau'n cael eu hadrodd i ddau neu fwy o Bwyllgorau Cynllunio yn dilyn ymweliadau safleoedd Aelodau a thrafod a llofnodi cytundebau A106.



Ffigur 11: Graddfeydd Amser Penderfynu

3.16 Apeliadau Cynllunio


Mae Ffigur 12 yn crynhoi cyfanswm nifer yr apeliadau a wnaed i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystod cyfnod y data. O'r 18 o apeliadau a gyflwynwyd, gwnaed 14 ohonynt yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, cyflwynwyd tair apêl yn erbyn achosion o fethu penderfynu hefyd. Caniatawyd saith apêl a gwrthodwyd pump. Tynnwyd dwy apêl yn ôl, mae tair apêl yn rhai cyfredol ac yn disgwyl penderfyniad gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac nid ydym yn gwybod ynglŷn ag un apêl. Yn ychwanegol at yr apeliadau cynllunio, gwnaed pedwar cais am Adolygiad Barnwrol i'r Uchel Lys Barn. Roedd dau gais am Adolygiad Barnwrol yn llwyddiannus, a dilëwyd y penderfyniad. Fodd bynnag, cadarnhawyd y ddau benderfyniad arall. Ystyriwyd un cais yn y Llys Apêl hefyd, a chadarnhaodd gwrthodiad gwreiddiol y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.



Ffigur 12: Apeliadau Cynllunio

3.17 Cytundebau Adran 106


Fel y dangosir yn Ffigur 13, nid oedd mwyafrif y ceisiadau (65%) yn mynnu cytundeb Adran 106. Nid yw'n hysbys p'un a oedd cytundeb Adran 106 ar waith ar gyfer chwe chais oherwydd cofnodion gwael neu gofnodion wedi'u colli yn y cam ôl-penderfyniad.



Ffigur 13: Cytundebau Adran 106

3.18 Amodau Cyn-Cychwyn


Mae Ffigur 14 yn dangos nifer yr amodau cyn-cychwyn a bennwyd ar ganiatadau cynllunio. Pennwyd rhwng 1 a 5 o amodau cyn-cychwyn ar geisiadau seilwaith yn fwyaf cyffredin. O'r 82 o geisiadau ag amodau cyn-cychwyn wedi'u cadarnhau, mae rhyw chwarter wedi cyflawni'r holl amodau hyd yma. Cofnodwyd 13 cais arall gyda cheisiadau Adran 73 cysylltiedig neu fân ddiwygiadau/diwygiadau amherthnasol.



Ffigur 14: Nifer yr Amodau Cyn-Cychwyn

3.19 Dechrau ar y Safle

Mae Ffigur 15 yn dangos nifer y ceisiadau cynllunio seilwaith y gwyddwn eu bod wedi dechrau ar y safle, fesul blwyddyn, yn ystod cyfnod y data. Fel y gellir gweld o Ffigur 15, ym mhob blwyddyn ac eithrio 2011, nid oedd mwyafrif y ceisiadau wedi dechrau ar y safle. Gallai hyn adlewyrchu arfer cadw cofnodion gwael, fodd bynnag. Pan gawsant eu cyfweid, nid oedd y rhan fwyaf o'r swyddogion achosion yn gwybod a oedd datblygiadau wedi dechrau ar y safle, neu nid oeddent yn siŵr. Mae hyn yn amlygu maes lle nad yw gwybodaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu hardaloedd lleol yn gyfoes, a gallai o bosibl greu anawsterau i Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran monitro cyflawni amodau, yn ogystal â monitro amodau sy'n cyfyngu ar weithrediad cynllun, gyda phroblemau canlyniadol ar gyfer gorfodi.



Ffigur 15: Dechrau ar y Safle yn ôl Blwyddyn

4 Ceisiadau Cynllunio Busnes/Masnachol

4.1 Cyfanswm Nifer y Ceisiadau

Cafodd cyfanswm o 80 o geisiadau cynllunio busnes/masnachol eu dadansoddi ar gyfer y 7 categori datblygu. Roedd mwyafrif y ceisiadau am ddatblygiad defnydd cymysg (49%) gyda maint cyfartalog o 49,846 metr sgwâr. Roedd y categori hwn yn cynnwys ystod eang o ddatblygiadau, rhai ohonynt y tu allan i'r diffiniad gwreiddiol o ddefnydd cymysg a amlinellwyd yn y Canllaw Ategol.

